



“Y Cadno am ei Fyloyd a'r Cwn am fyn'd ag e'.”

## CAN NEWYDD.

GAN J. E. FFYNONOR.

Tôn—“Farewell Home.”

DESGRIFIAD O HELWRIAETH A GORCHESTWAITH BYTHEUAID T. H. R. HUGHES, Esq.  
NEUADDFAWR AR YR 21ain o CHWEFROD, 1881.

Prif Destyn Barddonol yn Eisteddfod Brynmadog, Mehefin y 22ain, 1881.

NID OES mewn cof na hanes am y fath helwriaeth, yn y cymydogathau hyn, ac a gafwyd ar y dydd uchod. Cyfarfyddwyd ar lan Cwm Cul, lle yr oedd oddeutu 6 erw o Larch ieuainge yn tyfu, ac eithin, drain, a dyrysni, wedi cydwau yn garsi drwy yr holl le. Yr oedd yn dinasu yno oddeutu haner dwsin o gadnoaid gwylltyn mynyddau Gwallia. Bu y cwn yn hela fel berwol don am yn agos awr cyn cael un allan. Ar ol hela am ddwy awr o un cwm i'r llall, a hela un neu ddau i'r ddaear, o'r diwedd, torodd allan y dewraf o'r dewrion, a bu yn ymdrechfa ryfeddol o gydradd rhwng y cwn ac yntau am chwech awr o amser. Ymladdodd y Cadno yn ogoneddus, ac os ydwy dewdrd yn hawlio cofadail y mae hwn. Helwyd am wyth awr, heb o gwbl dros ugain mynudd o rwystr (check). Ac i fesur y ffordd waeth y cwn redeg, wrth y tir neu trwy radd y cyflymdra, nid ydyw dan 76 o filldroedd. Rhedasant am y tair awr gyntaf gyda y cyflymder o ddeuddeg milldir yr awr, ac o hyny allan o ddeg i chwech milldir yr awr. Er profi y cyflymdra, yr oedd rhai o'r marchogion allan o ager cyn un o'r gloch, a gwnaeth rhai ffres ymuno wedi hyny, ond ni fu y rhai hyny yn ddigon hyf ac hir anadlog i weled y diwedd. Nid ydwy yr helwr mwyaf profedig yn disgwyl gwled y fath redfa eto. Gwelwch y manylion gan “Whippo Wil” yn y “Field” am Mawrth y sed, 1881.

Mi glywais gan fy nhadau  
Am gwn y Neuadd gynt,  
Na fu erioed yn Nghymru  
Fwy heini rai ar hynt ;  
Ond heb ddiraddio'r rheiny,  
Na thynu 'u clod i lawr,  
Nis gwn a oen't hwy'n gydradd  
A chwn y Neuadd 'nawr.

Yn siriol cydnesewch,  
Ac hanes genyf gewch  
Am orchest pob gorchestion,  
Yn dirion os gwardewch.

Yr unfed dydd ar hugain  
O Chwefrod *Eighty one*,  
O'r Neuadd i Trefilan  
Aeth Hughes a'i gwn i'r lan.  
Am ddeg o'r gloch yr helwyr  
Mewn hwyliau yno oedd ;  
Gwnaf enwi y Marchogwyr,  
Yn gywir, nawr, ar goedd :

Yn siriol cydnesewch, &c.,

W2036

X205213749

Y ddau Filwriad Lewes,  
Boneddwyr parchus pur ;  
A'r Misses Lewes hefyd,  
Rai llonbryd o Llanllur ;  
A'r enwog Hughes y Neuadd,  
Cadfridog mawr y *Sport* ;  
A "Will" the "Whip" yn canlyn,  
A Lloyd Trefilan Court.

Yn siriol cydnesewch, &c.,

Y ffarmwr Walter Jenkins,  
Glanwern, oedd yn y lle,  
A Jones o Aberayron,  
A Preston, o'r un dre ;  
A Evans, Cwm coch, hefyd,  
Oedd wedi dod i'r ma's,  
A Evans, y Red Lion,  
A Evans, Penlanlas.

Yn siriol cydnesewch, &c.,

'Roedd, hefyd, Davies Gilfach,  
Aeronian, bardd y Mill,  
A'i ewyrth Jenkin Jenkins,  
Marchogwr "Whippo-will,"  
Yn gwneud i fyny'r helwyr,  
Heblaw'r Marchogwyr mad,  
'Roedd mwy nas gallaf enwi  
Yn tramwyr ar eu tra'd.

Oen't wedi dod yn nghyd  
Yn llawen iawn i gyd  
Yn nod fod hela Cadno  
Yn sport sy'n boddio'r byd.

Trafaelwyd o Trefilan,  
Yn fintau fawr i'r lan,  
I wersyll y llwynogod,  
Sef ceudod cwm Penlan  
Y cwn yn gweithio'n bybyr,  
Fel milwyr ar y ma's,  
Yn fuan a godasant  
Lwynogod mân a brás.

Ar fyr fei gwelwyd o,  
A mwy nag un ar tro,  
'Roedd llawer llais yn gweiddi  
Ar unwaith "Tally ho !"

Fe dorodd llwynog allan  
Pryd hyn i cwm 'Ralltgoch,  
A'r cwn oedd yn ei ganlyn  
Gan floeddio'n gryf a chroch ;

'Nol rhedeg yn dra gwrol  
Daeth 'nol i cwm Penlan,  
Er drysu'r gelyn rywffodd,  
Chwareuodd hwn ei ran.  
Rhag nod i lygad dyn,  
A blinder wedi ei drin ;  
I dwll gwningen rhywfodd  
Y gwthiodd ef ei hun.

O'r diwedd cawd un allan  
O'i guddfa'n nghwm 'Ralltgoch,  
A'i wyneb i Nantewnle  
Am ddeuddeg llawn o'r gloch.  
Trwy gwm y College troiai,  
Er dehau ar ei daith,  
Gan groesi dyffryn Aeron  
A'r afon ledan faith.

Wrth Abermeurig, bron  
Yn ddewr fe nosiodd hon ;  
Doethineb oedd ymdrochi  
Cyn dringo llethrau'r Fron.

Fe aeth dros fferm y Gwastod  
Heb flino dim 'n ei flâ'n,  
Trwy goedydd Abermeurig  
I fanc y Gilfach-frân ;  
A'i wyneb i Rhiwonon  
Fe redau 'n odd o rwydd,  
A fwrdd dros dir Cilerwisk,  
A'i 'r gwisgi blyfiwr gwydd.  
Dros glogwyn Cilfachfrân  
'Roedd pawb yn cadw mla'n  
Nid oedd y cwn a'r llwynog  
Ond 'chydig ar wahan.

Aeth wedyn i Barthele  
I'w siwrnau, mae'n beth syn,  
Anturio wnaeth y llwynog  
I'r enwog fanau hyn :  
*Mont Blanc* a Nova Scotia\*  
Arsyllfa Bank Dremddu,  
Gan adael, wrth fyn'd heibio,  
Ontario\* o un tu.

Y cadno cyfrwys gaed  
Yn gosod wrth ei draed,  
Fe glywai'r cwn wrth nesu,  
'N sychedu am ei waed.

Trwy goed y Gelligwenyn,  
Ag eithin, fwrdd ag e'  
I lawr i'r afon Denis  
Trwy lawer dyrys le ;

\* Enwau caeau a llyn dyrnu.

Gerllaw Glandenis troiodd,  
Gadawodd lan y dŵr  
Gan fyned yn dra buan  
Fel taran heibio'r Twr.

Dweyd ei fod yn blino,  
Aeth heibio Nat y go';  
Ond Nat a droes yn elyn,  
A bloeddiodd "Tally ho!"

Aeth heibio Derry Ormond  
I goed y Derry Lodge,  
Gan feddwl cael dihangfa,  
Waith dyna oedd y *dodge*;  
Ond ofer fu pob dyfais,  
Trwy drais 'n ei ol cadd droi  
I'r Bryngwyn heibio'r Lluest,  
Lle 'roedd e'n *fast* yn ffoi.

Fel bwa'n gyru'r saeth,  
Y cwn a'i gyrai'n gaeth,  
Y'mhell dros fryniau meithion  
Troi adre'n eon wnaeth.

Trwy *farmyard* Pantyfedwen,  
A'i'r cywrain gadno coch,  
Gan basio'r ieir ar hwyaid,  
A myned heibio'r moch.  
Dyrsai'r cwn o'r herwydd  
Ei dric yn llwydd a droes,  
Bu hyn yn fod i madyn  
I estyn hyd ei oes.

Ar gwn y Neuadd Fawr  
Yn nos hi aeth yn awr,  
Ond cyn pen 'chydig eto,  
Goleuo wnaeth y wawr.

Aeth yn ei flaen yn ddyfal,  
A'i ana'l beth yn hwy,  
Gan estyn camrau brysiog  
Dros enwog fferm Blaenplwy';  
Trafaelodd ffordd Cilerwisk,  
Mae'n hyddysg yma 'nawr,  
Ger coed y Gelligwenyn,  
Fe drodd i Penbrynawr.

'Roedd cwn y Neuaddfawr  
Yn ail ffyrnigo 'nawr,  
Ni fynent lai na'i guro,  
A'i gongero pe bai'n gawr.

I Hendrelas 'fe redai,  
O gaeau'r bardd "Cochgern,"  
A ffwrdd ag ef am gysgod  
I waelod cwm Penwern.

Ac oddiyno'n eofn  
Rhag ofn i angau 'i gwrrdd,  
A'i wyneb tuag Ystrad,  
Hyd at Ysgoldy'r Bwrdd.

'Roedd cwn y Neuaddfawr  
Yn canlyn ar ei sawr;  
Ni fynent lai na'i guro,  
A'i gongero pe bai'n gawr.

'Nol pasio yno'n hyfryd,  
Heb ochel dim o'i gern,  
Fe drodd yn ol gan fyned  
I waered i Glanwern  
Trwy'r dolydd yn ei gyfer,  
A'i ddewrder fel o ddur;  
Y llwynog aeth i fynu  
Tua llwyni mawr Llanllur.

Daeth lawr i'r dyffryn ir,  
Cyferbyn a Llanllur;  
Os caled cadd ei hela,  
Y'mlaen yn dal ei dir.

Yn ol drachefn i Ystrad  
Trwy'r dyffryn gwastad aeth,  
A'i gynffon fawr, pryd hyny,  
'N ymsythu megys saeth,  
Heb obaith am ddihangfa  
'N un man mewn llan na llys;  
Fe aeth dros bont arlderchog  
Y Brynog gyda brys.

A'r cwn, ar hyn o bryd,  
Oedd arno oll yn nghyd;  
A rhai oedd mewn cyfrwyau  
Ar eu goreu i gyd.

Ger glan yr afon rhedai,  
Pan grynai yn ei gro'n  
Waith rhwystro'r dewr ffoadur,  
Wnaeth gweithwyr Capt. Vaughan  
Pryd hyn carlamau'r helwyr  
Tuag yno gyda nerth,  
A gwelodd Jenkin Jenkins  
E'n brathu trwy y berth.

Cadd cwn y Neuaddfawr  
Rywbeth cynorthwy 'nawr,  
Ond mynent, help neu beidio,  
Ei guro pe bai'n gawr.

I ffwrdd trwy *front* y Brynog  
A'i'r llwynog (nid trwy'r *back*),  
A 'nol a thros yr afon  
Trwy'r dolydd i Lloydjack,



Rhwng Felinfach ag Ystrad,

Fe groesai'r *turnpike road*

Er diange rhag dihaledd

Y danedd oedd yn d'od.

Yn y *front* gwelwyd 'o

Gan helwr ar ei dro ;

Y p'las, medd rhai, a grynodd

Pan bloeddiod " Tally ho!"

Melltenodd mewn gwylltineb,

A 'i wyneb i Graigwen,

Ac i Drewynt oddi yno

Gwnai'r llwynog bwyntio'i ben ;

Yr helwyr 'nawr yn teimlo

Fod teithio'n orchwyl tyn,

Cymerodd amryw hamdden ;

Eu hangen oedd ffordd hyn.

Farchogwyr, ar y pryd,

Ar eu goreu i gyd,

A llawer droes eu cefnau

Am fod ceffylau'n ddrud.

Tr lan i Nantygelli,

Rhag ofn gwnai golli'r *gamp*,

Ac i Treberfedd wedyn ;

Yn 'sgymyn aeth y *tramp*,

Gan bwyntio tua'r Cribin ;

Ond wedyn trodd ei drwyn,

Gan fyned tros y gwaunydd

Tua bronydd Capel Brwyn.

Ac yntau o lwyn i lwyn,

Rhwng cochion frigau'r brwyn,

A'r ewn oedd yn eu symud

Bob mynudd yn ddigwyn.

Fe deimlau 'i nerth yn darfod,

Tra'n canfod y Ty Cwrdd

Meddyliodd am addoli,

Ond ffoi a wnaeth i fwrdd

Ar hyd y ffordd heb orphwys.

Ar bwys Pontfanog bu,

Ond troi o'r ffordd wnaeth wedyn

Yn ymyl Tyddyndu.

Os llwynog godant hwy

Does waeth pa le na phlwy

Bydd angau yn ei ganlyn

Ni ladd e' fflowlyn mwy.

'Nol troi i Pantygwiail,

Tr Ynysfelen aeth,

A cwm y Veynog hefyd,

Gan deimlo gwendid gwaeth ;

Ond trodd yn ol oddi yno

Gan hwylio i Castle Hill,

Lle gwelwyd ef gan Jenkins,

Marchogwr " Whippo-will."

Y gred gyffredin nawr,

Am gwn y Neuaddfawr,

Cyn wired a bo'n codi,

Mor wir ca'i dynu lawr.

'Roedd nawr mewn cyflwr gwaeledd

Yn gorwedd yn y gwys,

Pan glywodd ei elynion

Yn brysio'n mlaen ar bwys,

A chyda gobaith newydd

Fe gododd o'r fan hon,

Gan fyned i Bwlchperson,

Ac wedyn i Tynfron.

Bu yma'r trydydd tro

Gael brisgoed arno'n do ;

Y cwn o hyd yn boenus,

*From there last time must go.*

Fe aeth i Nantygelli,

Ac i Treberfeddfawr,

A Cardinal, y *leader*,

A'i gwelodd ef yn awr ;

A'r llwynog, yn ei ddychryn,

Yn sydyn ffordd i'r *shed* ;

Pob dyfais aeth yn fethiant—

*'I he gallant fox is dead.*

Cadd cwm y Neuaddfawr

Y fyddugoliaeth 'nawr ;

O dan ei traed 'roedd madyn

Yn llerpyn ar y llawr.

Am wyth o oriau meithion

Ymladdai'r dewrion hyn,

Gan fyn'd trwy ddeg o blwyfi,

Mae hyny yn beth syn ;

O'r diwedd cawd y gongcwest,

Fu 'riod fath orchest waith :

Tri ugain a deg milltir

Cyfrifir hyd y daith.

Bu Jenkins, Blaenyplyw',

Tr diwedd gyda hwy,

A Will, a Davies, Gilfach

A Hughes, pwy'n fyw sy fwy?

---

*Argwaiffwyd ac ar Werth gan Dafydd Gruffydd, Tregaron.*